# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 3 Ebrill 2014** |
| Amser: | **09.20 – 13.45** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_03_04_2014&t=0&l=cy
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400001_03_04_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees AC (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews AC**<br>**Rebecca Evans AC**<br>**Janet Finch-Saunders AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Lynne Neagle AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Lindsay Whittle AC** |
| Tystion: | **Mark Drakeford AC, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.**<br>**Gwenda Thomas AC, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Dr Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol**<br>**Albert Heaney, Llywodraeth Cymru**<br>**Dr Grant Robinson, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan**<br><br>**Professor Phil Routledge, Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)** |

Chloe Davies (Dirprwy Glerc)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar AC a Kirsty Williams AC. Ni chafwyd unrhyw ddirprwyon.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'u swyddogion i'r cyfarfod.

## 2 Gofal heb ei drefnu - bod yn barod ar gyfer gaeaf 2013/14: Craffu ar waith y Gweinidog - sesiwn ddilynol

2.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar ofal heb ei drefnu - bod yn barod ar gyfer gaeaf 2013/14.

2.2 Yn ystod y cyfarfod cytunwyd ar y pwyntiau canlynol:

- Cytunodd y Prif Swyddog Meddygol i ddarparu rhagor o fanylion ynghylch nifer y wardiau a gaewyd yn ystod gaeaf 2013/14 yn sgil achosion o'r norofeirws.
- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau parafeddygol yng Nghymru, gan gynnwys: canran y parafeddygon sydd wedi dod yn uwch-barafeddygon yn ystod y blynyddoedd diweddar, cadarnhad ynglŷn â faint o uwch-barafeddygon sy'n ymarfer yng Nghymru; a rhagor o fanylion am eu cynlluniau hyfforddi presennol ac yn y dyfodol.
- Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y caiff manylion am gyllid a ddyrannwyd o dan y Gronfa Gofal Canolraddol - a phob cynllun perthnasol - eu cyhoeddi ar lefel ranbarthol a'u rhannu â'r Pwyllgor. Ar ben hynny, nododd y Dirprwy Weinidog y caiff gwersi a ddysgwyd ar draws y sectorau perthnasol yn sgil y broses hon eu cyhoeddi.
- Cytunodd y Dirprwy Weinidog i rannu'r datganiadau o fwriad a gyhoeddwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol a phartneriaid perthnasol eraill yn unol â fframwaith Llywodraeth Cymru ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig unwaith y byddant yn barod.

## 3 Cynnig i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) ar gyfer eitem 4, a Rheol Sefydlog 17.42 (ix) ar gyfer eitem 5

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 4 Ystyriaeth o’r dystiolaeth a roddwyd yn y sesiwn ar ofal heb ei drefnu

## 5 Ymchwiliad i argaeledd gwasanaethau bariatrig: trafod y prif faterion

## 6 Ymchwiliad i’r mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 15

6.1 Bu’r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau’r Pwyllgor.

## 7 Papurau i’w nodi

7.1. Nododd y Pwyllgor Gofnodion ei gyfarfodydd ar 20 Mawrth a 26 Mawrth 2014, a’r ohebiaeth gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ynghylch cyhoeddi ei chynllun gweithredol ar gyfer 2014-15.

7.1 Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol: 20 Mawrth a 26 Mawrth 2014

7.2 Gohebiaeth gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: cyhoeddi ei chynllun gweithredol ar gyfer 2014–15

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar 30 Ebrill 2014

8.1. Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.